# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL**
**Gorffennaf 25ain 2023**

**Presennol :-** Cynghorwyr :- Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones,Connor Westwood,John Gwynedd Roberts, Michael Roberts, Aled Griffith ( Cadeirydd)
Marian Roberts ( Clerc)
**Absennol :-** Cyng Llinos Murphy

1. **Ymddiheuriadau:-** Cyng Dr Melfyn Edwards

**2. Archwilio'r cyfrifon.** (*Mantolen o'r cyfrifon hyd at 18.7.23 ynghlwm)*

Cafwyd cyflwyniad byr gan y Clerc ar weithdrefnau ariannol y Cyngor yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor Tref. Nodwyd bod cyfrifoldeb ar yr Is-Bwyllgor Cyllid i fod yn ymwybodol o weithdrefnau ariannol y Cyngor a bod rhai aelodau eisoes wedi mynychu cwrs perthnasol gan Un Llais Cymru i'r perwyl hwn. Yn wyneb hanes o 'scamio' diweddar mewn Cyngor Cymuned cyfagos a'r angen i godi ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r Is-Bwyllgor Cyllid roedd y Clerc yn awyddus iawn i ddangos pa mor ddiogel yw sustem taliadau'r Cyngor Tref. Nodwyd na fyddai twyll neu 'scam' cyffelyb yn gallu digwydd i'r Cyngor Tref gan fod y Clerc yn parhau i wneud taliadau trwy siec yn unig. Mae pob siec yn cael ei arwyddo gan 3 llofnod a mae copi o bob siec yn cael ei gadw gan y Clerc ar gyfer Archwilwyr Mewnol ac Allanol.
**Cafwyd y Fantolen yn gywir yn ôl cynnig Cyng Connor Westwood, Cyng Gwilym Jones yn eilio.**

**3 Adolygu Cynllun Datblygu 2023-24 ( copi ymghlwm) a phenderfynu ar flaenoriaethau 2023-24**

Cytunwyd y dylid cynllunio at gyfer y dyfodol trwy glustnodi arian ar gyfer prosiectau i'r dyfodol ac ystyried o ddifri cyn gosod y Praesept ar gyfer 2024-25. Trafodwyd y ffaith fod gan y Cyngor Tref arian i'w rannu a'i bod yn anodd iawn pendefynu sut i'w wario. Codwyd y pwynt fod llai nag arfer o geisiadau ariannol wedi dod i law ym mis Chwefror eleni a chytunwyd fod angen hysbysu cymdeithasau a mudiadau yn well a hwyluso'r broses o wneud cais. Cytunwyd y dylid pwysleisio'r angen i gyflwyno Mantolen ffurfiol gyda'r ffurflen gais yn hytrach na thudalen o ddatganiad banc.
**Penderfynwyd ail-edrych ar y ffurflen yng nghyfarfod llawn 12.9.23.**

Trafodwyd y Gyllideb Gwariant ar gyfer 2023-24 fel man cychwyn a chafwyd syniadau i lenwi'r bylchau ar y tabl Cynllun Datblygu 2023-24 fel a ganlyn :-

| **BLAENORIAETHAU 2021-2022** | **Gwireddwyd erbyn 2023** | **Syniadau ar gyfer 2023-2024** |
|---|---|---|
| Mannau Agored/Parciau<br>( Cae Chwarae Bodawen) | Arwydd newydd<br>Sicrhau'r fynedfa<br>Plannu coed<br>Peillio<br>Peintio offer chwarae | ➢ Cynnal a chadw nes bod National Grid wedi gorffen eu gwaith yma a gwneud cais iddynt adnewyddu / |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddigolledu'r Cyngor Tref ar gyfer uwchraddio'r safle. |
| Datblygiad ( Gwella edrychiad y dref) | Tybiau Blodau<br>Byrddau Cob Crwn<br>Baneri | ➢ Bwrdd y Garth a'r Cob<br>➢ Map o'r dref<br>➢ Datblygu ardal Pencei – cais am fyrddau picnic wedi eu ailgylchu. |
| Lles | Cyfraniadau<br>Llochesi bws<br>Clwb Ieuenctid | ➢ Parhau efo'r Clwb Ieuenctid<br>➢ Ail-edrych ar y cynllun Croeso Cynnes / cyfrannu at gynllun banc bwyd Eglwys Sant Ioan |
| Hyfforddiant | Cynllun hyfforddiant yn weithredol | ➢ Nodwyd fod y Cynllun Hyfforddiant mewn lle a bod mwy yn mynychu cyrsiau o'r herwydd. |
| Lleihau'r defnydd o bapur | Parhau â'r polisi di-bapur<br>Cynghorwyr i ddefnyddio eu Lwfans Blynyddol i dalu am lungopïo unigol | ➢ Nodwyd fod bron i hanner y Cynghorwyr yn dymuno cael copi papur ac nad oedd y polisi felly yn cael ei weithredu.<br>➢ Annog llai o argraffu. |
| Goleuadau Nadolig | Clirio'r storfa<br>7 x golau newydd | ➢ Nid oes cyfarfod o'r Is-bwyllgor Nadolig wedi bod.<br>➢ Dim ond gwariant arferol Nadolig – gosod a thynnu coed a goleuadau |

**4. Ceisiadau Cynllunio**

**(a) Rhif Cais .: C23/0544/44/TC (wedi ebostio 13.7.23)**
Lleoliad : 44 Cei'r Wyddfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9ND
Bwriad : Defnydd fel tŷ annedd prif breswylfa, tŷ annedd heblaw am brif breswylfa a gosod tymor byr fel a ddisgrifir yng nghategoriau C3, C5 ac C6 o'r Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987
**Penderfynwyd :-** Dim gwrthwynebiad

**(b) Rhif Cais C23/0563/44/CC (wedi ebostio 16.7.23)**
Lleoliad : Morfa Chalet Ffordd Y Borth, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UW
Bwriad : Torri a thocio coed
**Penderfynwyd :-** Dim gwrthwynebiad

**(c) Rhif Cais C23/0565/44/DT ( wedi ebostio 18.7.23)**
Lleoliad : Hafrodle Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY
Bwriad : Estyniad unllawr ac addasiadau cysylltiedig

**Penderfynwyd :-** Dim gwrthwynebiad

**5. Penderfynu ar weithgaredd Nadolig 2023.**
Nodwyd nad oes dim wedi ei drefnu hyd yma gan nad yw'r Is-Bwyllgor Nadolig wedi cyfarfod. Cytunwyd fod gweithgaredd yllynedd wedi bod yn llwyddiannus er iddi fod yn hwyr iawn yn y dydd ar y trefniadau yn cael eu cadarnhau.

**Penderfynwyd ar y nos Wener olaf ym mis Tachwedd ( y 24ain) yn ôl yr arfer.**
**Penderfynwyd ar y canlynol :-**

- Y Clerc i wneud y trefniadau arferol o archebu'r coed Nadolig; trefnu efo Cyngor Gwynedd i osod a thynnu'r coed Nadolig; trefnu efo R.J.Electrics i osod a thynnu'r goleuadau; trefnu efo Gareth Griffiths i osod a thynnu'r goleuadau ar y goeden yn y parc; trefnu i gael presenoldeb Sion Corn a cherddoriaeth yn y parc
- Yn ychwanegol i hyn :- holi'r Ganolfan os yw'r neuadd ar gael ar y 24ain; gofyn i'r Ganolfan os fyddent hwy'n fodlon trefnu gweithgareddau / stondinau / tê a choffi / bwyd ar y noson ; holi Caru Port beth fedran nhw ei wneud i gyfrannu at y noson.

**6. Biliau i'w talu - gwariant disgwyliedig:**

Ychwanegwyd bil Cyngor Gwynedd at y rhestr ac awdurdodwyd y taliadau canlynol :-

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | G.L.Jones | Archwiliad blynyddol offer chwarae Cae Bodawen | £ 328.80 |
| **2** | Alan G. Jones | Gosod polion a fflagiau ar y stryd | £ 960.00 |
| **3** | Cyngor Gwynedd | Archwiliad mewnol 2-22-23 | £ 306.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 20.45.
Marian Roberts ( Clerc)
28.7.23